YSGOL DYFFRYN CONWY

Cylchlythyr Presenoldeb yr Hydref

Mae pob disgybl yn perthyn. Mae pob diwrnod yn bwysig. Mae pob gwelliant yn cyfri.

19

DIWRNOD

Mae colli tua 19 diwrnod ysgol mewn blwyddyn yn cyfateb i oddeutu 10% o'r flwyddyn ysgol.

Gall colli 19 diwrnod neu fwy olygu bod disgybl yn dod yn absennol yn barhaus. Rydym yn monitro presenoldeb yn rheolaidd ac yn cysylltu â theuluoedd os oes pryder ynghylch presenoldeb. Ein blaenoriaeth yw cynnig cymorth a gweithio gyda'n gilydd cyn i absenoldeb ddod yn rhwystr sylweddol i ddysgu.

Mae pob dot yn ddiwrnod ysgol. Mae'r 19 diwrnod sydd wedi'u hamlygu yn cyfateb i oddeutu 10% o'r flwyddyn.

YR HYDREF HWN Lleihau absenoldeb parhaus · Adnabod rhwystrau i bresenoldeb yn gynnar · Gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr · Cefnogi disgyblion i gyrraedd eu potensial

GWYLIAU YN YSTOD Y TYMOR

Ni fydd gwyliau yn ystod y tymor yn cael eu hawdurdodi.

Mae pob diwrnod ysgol yn bwysig i ddysgu, cynnydd a phresenoldeb. Caiff absenoldeb gwyliau ei gofnodi fel absenoldeb heb awdurdod a gallai arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig yn unol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Trefnwch wyliau o fewn dyddiadau gwyliau ysgol cyhoeddedig, os gwelwch yn dda.

SALWCH YR HYDREF

Gadewch i ni gadw'n iach.

Bydd plant yn mynd yn sâl o bryd i'w gilydd, ond nid yw trwyn yn rhedeg neu snwffl bach o reidrwydd yn golygu diwrnod i ffwrdd o'r ysgol. Anogwch olchi dwylo, defnyddio hancesi papur, yfed digon o ddŵr a chael digon o gwsg, a gofynnwch i fferyllydd neu weithiwr iechyd proffesiynol os ydych yn poeni.

Os yw eich plentyn yn rhy sâl i fynychu'r ysgol, cysylltwch â ni ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

YN HWYR I'R YSGOL?

Mae cyrraedd ar amser yn y bore yn rhoi'r dechrau gorau i bob disgybl.

Nid yw pethau bob amser yn mynd yn ôl y cynllun, ond dylai disgyblion gyrraedd ar amser yn y bore, yn barod i ddysgu. Caiff hwyrni ei gofnodi a'i fonitro, ac efallai y bydd hwyrni parhaus yn arwain at ymyrraeth bellach.

Rhaid i ddisgyblion hwyr ddefnyddio prif fynedfa'r Ganolfan Hamdden, sydd ar agor tan 9:30am.

RYDYM YMA I HELPU

Dywedwch wrthym, fel y gallwn helpu.

Gall fod llawer o resymau pam fod cyrraedd yr ysgol yn anodd, gan gynnwys gorbryder neu les emosiynol, anawsterau cyfeillgarwch ac anghenion meddygol. Peidiwch ag aros nes bod presenoldeb yn dod yn bryder difrifol. Byddwn yn gwrando ac yn gweithio gyda chi ar gynllun cymorth unigol.

Mae ein hymagwedd yn gynhwysol, yn gefnogol ac yn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion.

Gyda'n gilydd, gadewch i ni wneud yr hydref hwn yn gam cadarnhaol tuag at well presenoldeb a dyfodol disgleiriach. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Gyda'n gilydd cyrhaeddwn ein potensial

Ysgol Dyffryn Conwy · Ffordd Nebo, Llanrwst, LL26 0SD · 01492 642 800 · cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk · ysgoldyffrynconwy.org